Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Ein gwybodaeth ddiweddaraf am nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU

Ebrill 2023 hyd Fawrth 2024



# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Ni yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).




Byddwn yn cadw rhestr o bob nyrs a bydwraig sydd yn cael gweithio yn y DU.




Byddwn hefyd yn cadw rhestr o bob cydymaith nyrsio sydd yn cael gweithio yn Lloegr.



Y mae nyrsys yn helpu pobl sydd yn wael, anafedig neu sydd angen gofal.



Y mae bydwragedd yn helpu gyda genedigaeth babanod.



Cymdeithion nyrsio yw staff iechyd sydd yn gweithio mewn timau nyrsio yn Lloegr.




Gelwir y rhestr hon yn gofrestr.




Bob 6 mis byddwn yn astudio'r wybodaeth ar ein cofrestr ac yn ysgrifennu papur amdani.




Y mae'r papur hwn yn edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf.

# Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024




Cynyddodd nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr ychydig dros 37,700.




Y mae cyfanswm o ychydig dros 826,400 o bobl ar ein cofrestr.



Nyrsys yw ychydig dros 765,000. Bydwragedd yw ychydig dros 44,100. Cymdeithion nyrsio yw bron i 10,900, ac y mae dros 6,300 yn nyrsys ac yn fydwragedd.




Y mae ychydig dros 228,700 o bobl wedi bod ar ein cofrestr ers 5 mlynedd neu lai.




Y mae ychydig dros 123,300 o bobl wedi bod ar ein cofrestr rhwng 5 a 10 mlynedd.




Y mae ychydig dros 336,700 o bobl wedi bod ar ein cofrestr rhwng 10 a 30 o flynyddoedd.




Y mae bron i 137,700 o bobl wedi bod ar ein cofrestr ers dros 30 o flynyddoedd.



Cynyddodd nifer o bobl sy’n dod o’r DU ychydig dros 11,500. Y mae yn awr dros 636,200 o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sy’n dod o’r DU.



Gostyngodd y nifer o bobl ar ein cofrestr sy’n dod o Ewrob 310.



Y mae yn awr 26,500 o bobl o Ewrob.




Cynyddodd y nifer o bobl ar ein cofrestr a ddaethant o’r tu allan i Ewrob i bron 163,720. Mae hynny’n gynnydd o ychydig dros 26,500 o bobl.



O’r bobl hynny, daeth 14,615 o India a 4,435 o’r Philippines.



Gostyngodd nifer nyrsys anabledd dysgu unwaith eto o 157.



Cynyddodd nifer nyrsys iechyd meddwl dros 3,500.



Dywedodd 550,100 o bobl ar ein cofrestr eu bod yn bobl wynion.



Dywedodd dros 135,800 eu bod yn Asiaid.



Dywedodd ychydig dros 99,600 eu bod yn bobl dduon.



Dywedodd bron I 7,300 eu bod o hil gymysg.



Dynion yw dros 91,600 o'r nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.



Merched yw ychydig dros 734,700.



Gwell oedd gan 28 beidio â dweud.



Dywedodd bron i 1 ymhob 100 nad yw eu rhyw yr un ag yr oedd pan y'u ganwyd.


# Pam fod rhai pobl wedi gadael ein cofrestr?





Y mae'n rhaid i chi fod ar ein cofrestr er mwyn gweithio fel nyrs yn y DU neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr.



Os ydych yn gadael ein cofrestr, ni chewch wneud y swyddi hyn.




Rhwng Ionawr 2023 a Mawrth 2024 gadawodd bron i 33,000 ein cofrestr.




Fe wnaethom ofyn i ychydig dros 26,700 o bobl pam eu bod wedi gadael. Dywedodd dros 7,600 wrthym.



Y rheswm cyntaf y gadawodd pobl yw  eu bod yn hŷn ac wedi ymddeol. Hwn oedd y rheswm mwyaf cyffredin.



Yr ail reswm oedd iechyd corfforol neu feddyliol.



Y trydydd reswm oedd chwythu plwc neu orflinder.




Dywedodd hanner y bobl a adawsant eu bod yn mynd yn gynt nag yr oeddynt wedi bwriadu.



Roedd y rhesymau y rhoddodd pobl i ni yn wahanol dros y grwpiau gwahanol.



Dywedodd bron i 5 allan o 10 o bobl o’r DU eu bod yn ymddeol. Credwn bod hyn am eu bod yn bobl hŷn.



Dywedodd bron i 4 allan o 10 o bobl o Ewrob eu bod wedi gadael ein cofrestr am eu bod yn gadael, neu wedi gadael, y DU.



Dywedodd 3 allan o bob 10 o bobl o wledydd y tu allan i Ewrob mai’r rheswm pennaf dros adael oedd eu bod hefyd yn gadael y DU.



Dywedodd bron i 9 allan o bob 10 o bobl nad oeddynt yn debygol o ddychwelyd at yrfa fel nyrs, bydwraig na chydymaith nyrsio yn y dyfodol. Ond efallai mai'r rheswm dros y nifer uchel hyn yw bod y rhan fwyaf o bobl yn ymddeol.



Dywedodd ychydig dros 8 allan o bob 10 o bobl sy'n gadael y gofrestr oherwydd iechyd meddwl gwael fod gweithio fel nyrs neu fydwraig wedi cael effaith ddrwg ar eu iechyd meddwl.

# Cofrestr dros dro Covid-19




Fe wnaethom gychwyn cofrestr newydd fel cymorth yn ystod Covid-19. Y mae hwn ar wahân i’n prif gofrestr.




Fe wnaethom ofyn i nyrsys a bydwragedd a oedd wedi gadael yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf i ymuno.




Y mae’r gofrestr dros dro wedi ei chau bellach.




O hon, ymunodd ychydig dros 2,500 o nyrsys a bydwragedd â’n prif gofrestr.

## Cydnabyddiaeth

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn gan wasanaeth EasyRead yn Inspired Services Publishing Ltd.
Cyf ISL144 24. Mehefin 2024.

**www.inspiredservices.org.uk**

**Speaking Up Together** -
Creu gwybodaeth EasyRead.

Y mae ffotograffau dewisedig yn dod o gasgliad Inspired.Pics EasyRead ac ni cheir eu defnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.

**www.inspired.pics**

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, London W1B 1PZ**
**T 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**